YSGOL GYNRADD GYMRAEG CWMLLYNFELL
CWMLLYNFELL WELSH PRIMARY SCHOOL

Pennaeth/Headteacher
Mrs Lynne M. Brier

***Ffôn/Tel:* (01639) 830630**

Heol y Bryn
Cwmllynfell
ABERTAWE
SA9 2FL

Gwefan/Website: **www.npted.org/yggdcwmllynfell**
e.bost/e.mail: **yggcwmllynfell@npt.school**

17 Gorffennaf 2020

Annwyl rieni

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i chi fel teuluoedd cyfan, a'ch plant am eich cefnogaeth a chydweithrediad yn ystod y cyfnod rhyfedd yma. Rydym yn ffodus iawn fel staff i gael rhieni mor gefnogol.

Ym mis Medi, bydd yr holl blant yn dychwelyd i'r ysgol erbyn dydd Llun, Medi 14eg yn y drefn ganlynol:
Dydd Llun, Awst 31ain – Gŵyl y Banc (ysgol ar gau)
Dydd Mawrth, Medi 1af – Diwrnod paratoi a chynllunio ar gyfer staff (dim plant)
Dydd Mercher, Medi 2il - Diwrnod paratoi a chynllunio ar gyfer staff (dim plant)
Dydd Iau, Medi 3ydd – Derbyn, Blwyddyn 3 a Blwyddyn 5
Dydd Gwener, Medi 4ydd – Derbyn, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3 a Blwyddyn 5
Dydd Llun, Medi 7fed – Derbyn, Blwyddyn 1 i Flwyddyn 6 (trwy'r wythnos)
Dydd Llun, Medi 14eg – Meithrin yn dechrau nôl, yn dibynnu ar ganllawiau'r Awdurdod Lleol

Trefniadau Eraill

Clwb Brecwast
Ni fyddwn yn cynnal clwb brecwast ym mis Medi. Rydym yn aros i gael mwy o wybodaeth oddi wrth y Cynulliad a'r Awdurdod Lleol ynglŷn â gweddill y tymor.

Trafnidiaeth
Nid ydym wedi derbyn gwybodaeth eto ynglŷn â'r bws mini ar gyfer disgyblion sy'n dod o bentref Rhiwfawr. Rydym yn aros i gael mwy o wybodaeth oddi wrth yr Awdurdod Lleol.

Clybiau
Ni fyddwn mewn sefyllfa i gynnal clybiau ar ôl ysgol ym mis Medi oherwydd y rheolau ynglŷn â chymysgu "swigod" o blant.

Cinio
Byddwn yn darparu cinio ym Mis Medi a bydd angen talu trwy Parent Pay yn unig. Ni fyddwn mewn sefyllfa i drin arian. Gall blant ddod a brechdannau os oes well ganddynt.

Byrbrydau
Yn anffodus, ni fyddwn yn medru gwerthu tost, ffrwythau a frubes, fel arfer. Rydym yn annog eich plant i ddod â byrbrydau eu hunain i'r ysgol.

Hylendid
Ni fydd angen i'r plant cadw at reolau ymbellhau cymdeithasol, ond byddwn yn parhau i sicrhau eu bod nhw'n cadw eu dwylo'n lan. Bydd gorsfeydd golchi dwylo ym mhob ardal o fewn yr ysgol ac ni fyddwn yn caniatáu i fwy nag un plentyn fynd i'r tŷ bach ar y tro.

Diolch i chi unwaith eto am eich cydweithrediad. Cadwch yn ddiogel a mwynhewch yr haf.

YSGOL GYNRADD GYMRAEG CWMLLYNFELL
CWMLLYNFELL WELSH PRIMARY SCHOOL

Pennaeth/Headteacher
Mrs Lynne M. Brier

***Ffôn/Tel:* (01639) 830630**

Heol y Bryn
Cwmllynfell
ABERTAWE
SA9 2FL

Gwefan/Website: **www.npted.org/yggdcwmllynfell**
e.bost/e.mail: **yggcwmllynfell@npt.school**

17 July 2020

Dear parents

Once again, we would like to thank you as families, and your children for your support and co-operation during these strange times. We are fortunate as staff to have such supportive parents.

In September every child will be back in school by Monday, September 14th in the following order:
Monday August 31st – Bank Holiday (school closed)
Tuesday September 1st – Preparation and planning day for staff (no children)
Wednesday September 2nd – Preparation and planning day for staff (no children)
Thursday September 3rd – Reception, Year 3 and Year 5
Friday September 4th – Reception, Year1, Year 3 and Year 5
Monday September 7th – Reception, Year1 to Year 6 (all week)
Monday September 14th – Nursery start back depending on Local Authority Guidelines

Trefniadau Eraill

Breakfast Club
We will not be running a breakfast club in September. We are awaiting further information from the Assembly and the Local Authority regarding the remainder of the term.

Transport
We have not yet received information about the minibus for pupils coming from the village of Rhiwfawr. We are awaiting further information from the Local Authority.

After school clubs
We will not be in a position to run after-school clubs in September because of the rules about mixing "bubbles" of children.

Lunches
School meals will be available in September and will need to be paid for through Parent Pay only. We won't be in a position to handle money. Children may bring a packed lunch if they prefer.

Snacks
Unfortunately, we can't sell toast, fruit and frubes as we used to do. We encourage children to bring their own snacks to school.

Hygiene
Children will not have to abide by the rules of social isolation, but we will continue to make sure they keep their hands clean. There will be hand washing stations in every area of the school and we will not allow more than one child to go to the toilet at any one time.

Thank you again for your co-operation. Stay safe and enjoy the summer.